Glandon,

Minffordd,

Penrhyndeudraeth,

Gwynedd,

LL486HP.

☏01766771297/07889128182

Annwyl Gyfeillion,

Bydd taith gerdded y Gymdeithas Ddeintyddol yn cael ei chynnal o gwmpas Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog eleni, ar y 18ed o Fai. Byddwn yn cyfarfod ym maes parcio Caffi ger y Llyn, Tanygrisiau (LL41 3TP), am 10yb, cyn dechrau ar y daith i fyny at Llyn Stwlan ac i lawr trwy Gwm Orthin. Bydd aelodau o Dim Achub Mynydd lleol yn ein harwain, ac hefyd yn rhoi ychydig o hanes y chwareli lleol.

Bydd y daith yn debygol o gymryd oddeutu 2 awr, ac yn addas i blant, cyn cyfarfod mewn tafarn leol am ginio Sul. Bydd y dafarn hefyd yn addas i blant gan fod maes chwarae yno.

Byddaf yn ddiolchgar iawn pe medrech adael i mi wybod os ydych am ddod gyda ni erbyn Mai 10, gan ddefnyddio'r ebost esylltmeillyn297@btinternet.com . A oes modd i chi adael rhif ffôn fel y gallwn gysylltu a chi os oes angen. Ni fydd angen talu o flaen llaw, gallwch dalu am eich pryd ar y dydd.

Gan edrych ymlaen i'ch gweld a chroesi bysedd am dywydd ffafriol!

Cofion gorau

Justin Jones.